COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 14 MEHEFIN 2007 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Mr D H Roberts (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Y Parch. H Davies	Mr D Carr
	Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
	Mr M Usher
	Mrs A Butler
	Gwasanaethau Archwilio Mewnol (GAM) Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Mr G Vernon
	Ms G Jones

Croesawodd y Cadeirydd Mr Usher, Mrs Butler, Mr Vernon a Ms Jones i'r cyfarfod.

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2007.

1.1 Cytunwyd â'r rhain ar yr amod y gwneid mân newidiadau, a'u mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

3. Strategaeth Archwilio, Cyfrifon Blynyddol ac ISA 260 2006-07.

3.1 Nododd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio a gwblhawyd ym mis Mawrth 2007. Ymholodd y Pwyllgor a ellid rhannu mwy o wybodaeth rhwng archwilwyr mewnol ac allanol. Esboniodd Mr Usher ei fod yn ofynnol i SAC wneud swm penodol o waith archwilio i gydymffurfio â safonau archwilio a hefyd i gyflawni gwaith yr Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd fod SAC wedi ymrwymo i fod yn gost effeithiol ac effeithlon wrth gyflawni ei ofynion statudol. Cafwyd cydweithredu ag archwilwyr mewnol hefyd i atal dyblygu gwaith, ac roedd modd i SAC ddibynnu ar waith a wnaed gan GAM mewn rhai meysydd archwilio lle byddai'n rhaid iddynt wneud y gwaith ei hunain fel arall. Er y bu lleihad mewn gwaith archwilio o ganlyniad i'r cydweithredu ag archwilwyr mewnol, nodwyd bod ffioedd SAC ar gyfer archwiliad 2006-07 wedi parhau'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Esboniodd Mr Usher fod y ffioedd yn cynnwys elfen o gostau sefydlog a'u bod hefyd yn gymesur â maint y Comisiwn, ac mai dyma'r ffioedd isaf a godir ar unrhyw CCNC. Yn ogystal,

cyfeiriodd at y ffaith y bu'n ofynnol i SAC wneud ychydig o waith ychwanegol ar gyfrifon drafft y Comisiwn, ac na fyddent yn codi tâl ar y Comisiwn am hyn.

3.2 Adroddodd Mrs Butler fod archwiliad 2006-07 bron wedi'i gyflawni, ac y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn mynegi'i farn cyn bo hir. Cyhoeddwyd ISA 260 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' i'r Comisiwn. Rhoddai'r adroddiad fanylion am faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr archwiliad, ar gyfer 2006-07, a oedd yn cynnwys agweddau ansoddol ar arferion cyfrifo ac adrodd ariannol y Comisiwn. Codwyd dau fater gan yr adroddiad yn y cyswllt hwn. Yn ystod y broses o gau, canfuwyd bod y llyfr arian a gadwyd gan Gyfrifyddion y Comisiwn yn anghywir, am fod un taliad wedi'i hepgor ac, wedi hynny, heb ei adrodd yn y datganiadau ariannol drafft. Yn ogystal â hyn, nodwyd sawl peth arall a oedd wedi'u hepgor yng nghopi'r Comisiwn o'r llyfr arian, a oedd yn bresennol yn fersiwn y Cyfrifydd, a nodai y cafwyd diffyg cyfathrebu a oedd wedi arwain at ddau fersiwn gwahanol o'r llyfr arian ar ddiwedd y flwyddyn. Nododd Mrs Butler y canfuwyd camgymeriadau yn y llyfr arian yn ystod archwiliad y flwyddyn flaenorol, a dywedodd ei bod yn siomedig i hyn ailddigwydd yn 2006-07. Roedd a wnelo'r ail fater ag ansawdd y cyfrifon drafft. Roedd Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (LlAA) wedi cyflwyno newidiadau yn y ffordd y dylid trin cymorth grant yng nghyfrifon 2006-07. Roedd hyn yn golygu bod newidiadau sylweddol yn fformat cyfrifon 2006-07, a bod angen ailddatgan ffigur cymharol ar gyfer 2005-06. Er i SAC ddarparu crynodeb o'r newidiadau gofynnol i Gyfrifydd y Comisiwn, nid oedd y datganiadau ariannol drafft yn ymgorffori'r newidiadau hyn yn ddigonol a oedd yn golygu, ynghyd â rhai camgymeriadau sylfaenol a nodwyd, bod angen i SAC wneud mwy o waith i gynhyrchu cyfrifon drafft yn y fformat cywir.

3.3 Dywedodd Mrs Butler y gellid bod wedi achosi'r anawsterau â'r llyfr ariannol a'r newidiadau i'r datganiadau ariannol drafft, yn rhannol, gan y ffaith bod yr amserlen arolygu yn rhy dynn ac nad oedd yn caniatáu digon o amser ar gyfer sicrwydd ansawdd. Argymhellodd adroddiad ISA 260 y dylai'r Comisiwn ganiatáu tua wythnos i gynnal adolygiad sicrwydd ansawdd yn amserlen archwilio blynyddoedd dilynol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at Gyfrifydd y Comisiwn i godi'r materion hyn gydag ef a cheisio sicrwydd y byddai camau yn cael eu cymryd i atal gwneud camgymeriadau tebyg yn y dyfodol.

3.4 Mynegodd y Pwyllgor siom na fu modd defnyddio pecyn meddalwedd cyfrifo Sage ar gyfer cyfrifon 2006-07. Ar gyfer 2007-08, ystyriwyd y dylai fod yn bosibl i gyfrifyddion y Comisiwn ddefnyddio Sage yn lle'r daenlen a ddefnyddiwyd ar gyfer y llyfr arian cyfredol, fodd bynnag, nodwyd y gallai bod rhai cyfyngiadau i'r hyn y gallai Sage ei wneud o ran cynhyrchu'r ffigurau angenrheidiol ar gyfer y ffurflen hawlio cymorth grant misol, am fod hyn yn gofyn am elfen o gostau amcangyfrifedig nad oedd modd eu cael drwy Sage. Cytunwyd y byddai SAC yn trefnu i David Wood gysylltu â'r Comisiwn i drefnu cyfarfod â'r cyfrifydd ac i archwilio'r dewisiadau ar gyfer y ffordd orau o ddatblygu'r defnydd o Sage.

3.5 Nododd y Pwyllgor gyfrifon blynyddol 2006-07.

4. Adroddiad Archwilio Mewnol 2006-07.

4.1 Adroddodd Mr Vernon, ar gyfer 2006-07, y cytunwyd â SAC y byddai GAM yn gwneud llawer o'r gwaith archwilio a gynhwysai lywodraethu er mwyn lleihau dyblygu gwaith archwilio yn y maes hwn. Roedd yr archwiliad wedi cynnwys rheolyddion lefel uchel i gefnogi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol, trefniadau caffael ac olrhain argymhellion archwilio'r flwyddyn flaenorol. Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd bod y fframwaith rheoli a weithredai oddi mewn i'r Comisiwn, yn gyffredinol, yn effeithiol, ac y rhoddwyd argymhellion archwiliad y flwyddyn flaenorol ar waith.

4.2 Cynigiodd yr adroddiad sawl argymhelliad o ran canfyddiadau'r archwiliad. Nid oedd fersiynau diweddaredig o'r Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol (DRhMA) a'r Memorandwm o Gytundeb (MoG) rhwng Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi eu llofnodi o hyd. Roedd yr oedi o ran llofnodi'r DRhMA o ganlyniad i ymgynghori parhaus â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac nid oedd modd cwblhau'r MoG tan fod ymateb y Llywodraeth i adroddiad Unfed Ymholiad ar Ddeg Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn hysbys. Argymhellodd yr adroddiad lofnodi'r dogfennau allweddol hyn cyn gynted ag y bo modd. Adroddodd Mr Usher fod rhai CCNCau eraill nad oeddent hyd yn hyn wedi cytuno ar eu DRhMAau â'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn cyflwyno newidiadau a diwygiadau, a bod SAC wedi codi'r mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Parhaol.

4.3 Roedd argymhellion eraill a wnaed yn cynnwys y dylai'r Comisiwn adolygu'r Gofrestr Risg trwy gyfeirio at arweiniad newydd LlCC; cofnodi'r defnydd o gerdyn Caffael Cymru newydd; newid codau cyllideb CFfG i adlewyrchu'n fwy cywir mathau o wariant; llunio cyfarwyddiadau desg ar gyfer defnyddio meddalwedd cyfrifyddu Sage; a staff i fynychu cyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nododd y Pwyllgor adroddiad Archwilio Mewnol 2006-07 ac argymhellion yr archwiliad.

5. Gweithdrefn Gwyno

5.1.1 Nodwyd bod y Weithdrefn Gwyno'n ymgorffori'r holl newidiadau a gynigiwyd gan SAC ac iddi gael ei chymeradwyo gan yr Is-adran Noddi. Ymholodd Mr Vernon a oedd y Comisiwn wedi'i gynnwys gan Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, am y byddai'n rhaid cynnwys cyfeiriad ato yn y Weithdrefn Gwyno, y byddai'n rhaid ei hanfon ato i gael ei sylwadau yn ei chylch hefyd. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn canfod a oedd y Comisiwn yn dod o dan gylch gwaith Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

6. Newid Arfaethedig i Bartner Ymgysylltu'r Archwiliad Allanol

6.1 Cyfeiriodd Mr Usher at y llythyr diweddar oddi wrth Simon Edge at Ysgrifennydd y Comisiwn ynglŷn â'r newid ym Mhartner Ymgysylltu Archwiliad Allanol y Comisiwn o staff SAC i is-gontractwr, ac esboniodd y cynigiwyd hyn am fod SAC yn ystyried Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn sefydliad isel ei risg. Byddai gan y

Comisiwn uwch aelod o SAC fel partner cysylltu o hyd, a byddai'n parhau i gadw Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol. Mynegodd y Pwyllgor bryder y byddai'r newid hwn yn golygu colli parhad â staff archwilio SAC, a oedd wedi ennill gwybodaeth weithredol o'r Comisiwn, ac y byddai hefyd yn gofyn am gromlin ddysgu ar gyfer staff archwilio'r is-gontractwr newydd. Dywedodd Mr Usher er y byddai barn y Comisiwn ar y newid yn cael ei cheisio, Archwilydd Cyffredinol Cymru fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol yn y pen draw. **Cytunwyd** y dylid gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf.

7. Cwynion (eitem sefydlog)

7.1 Ni chafwyd unrhyw gwynion ers y cyfarfod diwethaf.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Nid oedd unrhyw fater arall.